CADWYN CLWYD CYFYNGEDIG ADRODDIAD BLYNYDDOL

EBRILL 1AF 2021 – MAWRT 31AIN 2022

CADWYN CLWYD CYFYNGEDIG ANNUAL REPORT

1ST APRIL 2021 - 31ST MARCH 2022

CADWYN Clwyd

Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency

CYNNWYS CONTENTS

Trosolwg y 12 mis diwethaf.... An Overview of the Last 12 months.....	2
Cynlluniau'r Cynllun Datblygu Gwledig • LEADER • Cymunedau Gwyrdd • Mynediad Digidol Gogledd Ddwyrain Cymru Rural Development Plan Schemes • LEADER • Green Communities • NEW Digital Access	4
Cynlluniau Cronfa Ffyniant Bro y Deyrnas Unedig • Cronfa Adfywio Cymunedol y Deyrnas Unedig • Cronfa Ffyniant Bro De Clwyd UK Levelling Up Schemes • UK Community Renewal Fund • Clwyd South Levelling Up	13
Cronfa Budd Cymunedol Brenig Wind Ltd Brenig Wind Ltd Community Benefit Fund	16
Personél: Bwrdd Cyfarwyddwr a Staff Cadwyn Clwyd Personnel: Cadwyn Clwyd Board of Directors and Staff	17
Brenig Wind Ltd – Adroddiad Blynyddol y Gronfa Budd Cymunedol Brenig Wind Ltd. Community Benefit Fund Annual Report	Yn yr atodiad Appended
Datganiadau Ariannol Financial Statements	Yn yr atodiad Appended

RHAGAIR FOREWORD

Mae'n bleser cyflwyno'r adroddiad blynyddol eleni ar ran Cadwyn Clwyd, sy'n nodi llwyddiannau Cadwyn Clwyd yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae'r cwmni yn tynnu at gamau olaf cyflawni Cynllun Datblygu Gwledig yr Undeb Ewropeaidd ac mae'n gadarnhaol gweld nifer y cymunedau a nifer y prosiectau a gefnogwyd dros y blynyddoedd. Mae'n werth nodi bod nifer o gynlluniau LEADER wedi denu cyllid arwyddocaol gan raglenni a chynlluniau eraill. Wrth i ni symud i strwythurau cyllido newydd mae'n eithriadol o galonogol ein bod ni'n targedau ac yn sicrhau cyllid gan raglenni'r Gronfa Ffyniant Bro sy'n cyfrannu at wneud gwahaniaeth cadarnhaol i gymunedau gwledig ledled Gogledd Ddwyrain Cymru.

On behalf of Cadwyn Clwyd, I'm pleased to present this year's annual report detailing the achievements of Cadwyn Clwyd over the last 12 months. The Company is nearing the final stages of delivery of the EU Rural Development Plan and it's positive to see the number of communities and projects having been supported over the years. It is also noteworthy that several LEADER schemes have levered in significant funding from other programmes and schemes. As we move into new funding structures, it's extremely positive that we are targeting and securing funds from the UK Levelling Up suite of programmes and contributing to make a positive difference to communities across rural North East Wales.

ANDREW JEDWELL - CADEIRYDD /**CHAIRMAN** CADWYN CLWYD

TROSOLWG Y 12 MIS DIWETHAF….
AN OVERVIEW OF THE LAST 12 MONTHS…..

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r cwmni wedi parhau i weinyddu ei bortffolio o raglenni'n llwyddiannus.

Mae'r prif weithgarwch wedi canolbwyntio ar gwblhau gwerth dros £9.3 miliwn o gynlluniau Cynllun Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru erbyn dyddiad diwedd y rhaglen, Mehefin 2023. Mae'r cwmni wedi bod yn llwyddiannus hefyd yn sicrhau cyllid a chyflawni cynlluniau'r Gronfa Adfywio Cymunedol a gyllidir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Gweinyddwyd a chyflawnwyd Cronfa Budd Cymunedol Brenig Wind Ltd yn ystod y cyfnod hefyd.

During the last 12 months, the company has continued to successfully administer its portfolio of programmes.

The main area of activity has focused on completion of over £9.3million of the Welsh Government's Rural Development Plan's schemes by the programme end date of June 2023. The company has also been successful in securing and delivering the UK Government funded Community Renewal Fund. Brenig Wind Ltd Community benefit fund has also been administered and delivered during the period.

£9.3 million

Cynllun Datblygu Gwledig

Rural Development Plan

£7.8 million

Cronfa LEADER gwerth £7.8 miliwn wedi cefnogi dros 200 o brosiectau peilot arloesol dan arweiniad y gymuned

LEADER Fund supporting over 200 community led innovative pilot projects

£1.3 million

Cronfa Cymunedau Gwyrdd gwerth £1.3 miliwn yn cefnogi 30 o brosiectau seilwaith gwyrdd dan arweiniad y gymuned

Green Communities - supporting 30 community led green infrastructure projects in North East Wales

£198,000

Cynllun Mynediad Digidol Gogledd Ddwyrain Cymru gwerth £198k yn cefnogi mynediad digidol i gymunedau gwledig Gogledd Ddwyrain Cymru

The £198k North East Wales Digital Access project supporting digital access for rural North East Wales communities

Gwnaeth Cadwyn Clwyd, mewn partneriaeth â Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, sicrhau a chyflawni prosiect Arloesi Cymunedol Sir Ddinbych a gyllidwyd gan Gronfa Adfywio Cymunedol Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Roedd y gweithgareddau dan ofal Cadwyn Clwyd yn canolbwyntio ar ddatblygu economaidd wedi'i arwain gan y gymuned leol i alluogi cymunedau a busnesau daearyddol a sectoraidd yn Sir Ddinbych i wireddu a meithrin arloesedd ac agwedd entrepreneuraidd ar y lefel leol a'r lefel micro.

Bu Cadwyn Clwyd yn gweinyddu Cronfa Budd Cymunedol Brenig Wind Limited. Hyd yma mae'r gronfa wedi dyrannu £392,450 mewn grantiau a chefnogi 65 o brosiectau cymunedol gan amrywiaeth eang o ymgeiswyr, o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu i grwpiau cymunedol, adnewyddu neuaddau pentref, uwchraddio cyfleusterau chwaraeon a hamdden, buddsoddi mewn darparwyr gofal plant yn y gymuned a chymorth a chefnogaeth i grwpiau cymdeithasol yn ardal Hiraethog Conwy a Sir Ddinbych.

Nawr mae'r Cwmni yn rhan o'r broses ag Awdurdodau Lleol yng Ngogledd Ddwyrain Cymru i sicrhau a chyflawni prosiectau dan y strwythurau cyllido newydd sy'n dod yn lle cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd trwy gyfrwng Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig. Bydd y Cwmni hefyd yn parhau i weinyddu a cheisio am gyfleoedd cyllido i gymunedau lleol o gronfeydd fel mentrau Datblygiad Lleol dan arweiniad y Gymuned Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, cyllid y Loteri a chronfeydd eraill wrth i gyfleoedd ddod i'r amlwg.

During the period, Cadwyn Clwyd in partnership with Denbighshire Voluntary Services Council secured and delivered the £600,000 Community Innovation Denbighshire project funded by UK Government Community Renewal Fund. The activities delivered by Cadwyn Clwyd focus on community led local economic development and will enable geographical and sectoral communities and businesses in Denbighshire to realise and foster innovation and an entrepreneurial attitude at the local and micro level

Cadwyn Clwyd also administered the Brenig Wind Limited Community Benefit Fund. To date, the fund has awarded £392,450 in grants and supported 65 community projects from a wide variety of applicants, from ICT for community groups, village hall refurbishments, upgrading of sports and recreation facilities, investment in community childcare providers, to support for social groups in the Hiraethog area of Denbighshire and Conwy.

Going forward, the Company is engaging in the process with Local Authorities in NE Wales to secure and deliver under the new funding structures which are deemed to replace EU funds, via the UK Shared Prosperity Fund. The Company will also continue to administer and seek funding opportunities for local communities from funds such as Welsh and UK Governments' Community-Led Local Development initiatives, Lottery funding and other funds as opportunities arise.

Lowri Owain - Rheolwr y Cwmni / **Company Manager** Cadwyn Clwyd

CYNLLUNIAU'R CYNLLUN DATBLYGU GWLEDIG

RURAL DEVELOPMENT PLAN SCHEMES

LEADER

Mae Cadwyn Clwyd wedi parhau i weinyddu'r rhaglen LEADER yn llwyddiannus mewn partneriaeth â Grwpiau Gweithredu Lleol yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Trwy ganolbwyntio ar gyfranogiad llawr gwlad, arloesi a phartneriaethau mae'r cwmni wedi cefnogi a chyflawni 208 o brosiectau ar draws Gogledd Ddwyrain Cymru.

Cadwyn Clwyd has continued to successfully administer the LEADER programme in partnership with the Local Action Groups in Denbighshire, Flintshire and Wrexham. Focusing on grass roots participation, innovation and partnerships the company has supported and delivered 208 projects across rural North East Wales.

LEADER – TROSOLWG Y PROSIECTAU YN YSTOD Y 12 MIS DIWETHAF . . . .

Llwyddodd gwaith datblygu wedi'i ariannu gan LEADER ar brosiect Bryn y Beili (yr hen gastell Normanaidd mwnt a beili yn yr Wyddgrug, Sir y Fflint) i ddenu £1,138,700 gan y Loteri Genedlaethol, ynghyd â £49,600 gan y Dreth Tirlenwi a £10,000 gan Gronfa'r Arglwydd Faer Cyngor Tref yr Wyddgrug. Bu Cadwyn Clwyd yn gweithio gyda phartneriaeth Bryn y Beili ar ddau brosiect LEADER i helpu datblygu'r prosiect a'i wireddu. Roedd hyn yn cynnwys cymorth LEADER tuag at ffioedd proffesiynol ar gyfer arfarniad opsiynau a chynlluniau ar gyfer datblygiad y safle, a chymorth hefyd i brosiect peilot i gynnal digwyddiadau a gweithgareddau ar y safle i hyfforddi gwirfoddolwyr ac ymgysylltu â'r gymuned ehangach. Mae'r gwaith cyfalaf ar y fynedfa newydd a Chanolfan Ymwelwyr Bryn y Beili wedi'u cwblhau bellach.

Mae'r prosiect Ein Tirlun Darluniadwy yn brosiect cyffrous sy'n canolbwyntio ar dirwedd Dyffryn Dyfrdwy a Safle Treftadaeth y Byd Camlas a Dyfrbont Pontcysyllte. Ei thema yw'r teithiau llawn ysbrydoliaeth a fu – ac sy'n parhau i fod – yn nodwedd yr ardal Camlas Llangollen, A5 Thomas Telford a'r Afon Dyfrdwy. Mae'r prosiect, a ddechreuodd ei daith trwy LEADER, wedi derbyn cyllid gwerth £1,382,400 trwy Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ac mae'n buddsoddi yn y dreftadaeth naturiol ac adeiledg ac yn gwella mynediad ac ymgysylltiad â'r cyhoedd. Gwnaeth cyllid LEADER gefnogi astudiaeth ddichonoldeb gychwynnol ar gyfer y prosiect Ein Tirlun Darluniadwy, ac mae Cadwyn Clwyd wedi cefnogi eitemau eraill ers hynny i gefnogi'r prosiect, megis cynlluniau dehongli, cynlluniau rheoli coetiroedd a hyfforddiant mewn sgiliau traddodiadol.

Mae Llangollen 2020 wedi llwyddo i ddenu cyllid cyfalaf sylweddol gan Gronfa Ffyniant Bro y Deyrnas Unedig i ddatblygu cynllun parth y cyhoedd yng nghanol y dref. Ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl heb gyllid LEADER ar gyfer Astudiaeth Ddichonoldeb Rhannu Gwagleoedd Llangollen 2020. Gwnaeth y gwaith ddatblygu opsiynau gan ddefnyddio dulliau dylunio parth y cyhoedd arloesol ac anghonfensiynol, ac asesu eu dichonoldeb a'u heffaith economaidd.

> Diolch o galon i chi am eich holl ymdrechion, nid yn unig ar ran Llangollen 2020, a Phrosiect y Pedair Brif Briffordd hefyd. Gwnaeth arian sgôp y prosiect gan Gadwyn Clwyd arwain at gyfanswm o £1.8m i Llangollen 2020 ac, yn debygol iawn, swm tebyg ar gyfer y Prosiect Pedair Prif Briffordd. Am ganlyniad gwych! Stori llwyddiant heb ei ail, diolch i chi a'r Bwrdd yn buddsoddi yn ein syniadau… fel grŵp byddwn yn ddiolchgar am byth i chi a Cadwyn am eich cefnogaeth.
>
> Grŵp Llangollen 2020

Mae Partneriaeth Cymuned De Sir Ddinbych wedi derbyn cymorth LEADER ar gyfer amrywiaeth o fentrau yn cynnwys astudiaeth ddichonoldeb Cludiant Ni, rhaglen hyfforddi gwirfoddolwyr cludiant cymunedol, astudiaeth ddichonoldeb Pryd ar Glud, Clwb Car Trydan Cymuned Edeyrnion, Ynni Lleol ac astudiaeth ddichonoldeb ac ymgynghoriad ynghylch ehangu eu gwasanaethau. Buont yn llwyddiannus gyda chais am £499,754.00 dros bedair blynedd gan y Loteri Genedlaethol ar gyfer prosiect i ddarparu'r gwasanaethau i ardal ehangach yn ne Sir Ddinbych.

Derbyniodd Prosiect Peilot Gofal Micro Sir y Fflint Wledig gymorth LEADER i alluogi Cyngor Sir y Fflint i gynnal prosiect peilot yn ymchwilio i ddatrysiadau newydd wrth ddarparu gofal mewn ardaloedd gwledig ynysig. Bu'n gweithredu cynllun cymorth hefyd i annog pobl i fentro i'r sector darparu gofal. Cafodd y prosiect gyllid yn ddiweddar gan gynllun Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru i ddatblygu a gwella'r ddarpariaeth ymhellach.

Gwnaeth Fforwm Bwyd Gogledd Ddwyrain Cymru ddod â chynhyrchwyr bwyd o'r ardaloedd gwledig yn rhan o Fforwm Bwyd a Diod Gogledd Ddwyrain Cymru. Yn ogystal â rhwydweithio, rhannu arferion gorau, trafod yr heriau'n wynebu'r sector a llunio syniadau prosiect, cynhaliodd y grŵp sesiynau hyfforddiant, digwyddiadau mentora, tripiau ymgyfarwyddo a gweithdai i'r cynhyrchwyr.

Dechreuwyd Cynllun Llysgenhadon Twristiaeth Gogledd Ddwyrain Cymru yn wreiddiol gan Gadwyn Clwyd a'i bartneriaid gyda chymorth LEADER. Sefydlwyd y cynllun i gryfhau'r cysylltiadau rhwng rhanddeiliaid yn gweithio yn y sector twristiaeth. Cynigir cyfleoedd i fusnesau o Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam fynd ar deithiau dysgu, mynychu digwyddiadau a gweithdai hyfforddiant a'u hannog i ddefnyddio cynnyrch lleol a chyflwyno data i fesur effeithiau economaidd twristiaeth a hybu'r ardal ehangach.

Mae prosiect Rhwydwaith Menter Gymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, a gyllidwyd gan LEADER, yn darparu cymorth ymarferol i ddatblygu a chynnal mentrau cymdeithasol. Gwnaeth y prosiect gyllido lleoedd i entrepreneuriaid cymdeithasol newydd/ar fin sefydlu ar y rhaglen Grymuso Entrepreneuriaid.

Sefydlwyd Prosiect Cydlynydd Datblygu Cefn Mawr i weithio â'r Cyngor Tref a'r gymuned leol i gynyddu ei gapasiti a chynyddu'r hyder i weithredu prosiectau ffisegol ac amgylcheddol i gyfoethogi'r gymuned yn y dyfodol. Yn ystod y flwyddyn mae'r Cydlynydd wedi cynorthwyo'r Cyngor Tref i sicrhau cyllid gwerth £98,146.50 ac mae gwaith yn parhau i ddod â rhagor o brosiectau a chyllid i'r ardal.

Gwnaeth y Prosiect AILOSOD, AILDDECHRAU, ADLAMU ddarparu cymorth ac adnoddau i Ganolfannau Cymuned, Neuaddau Pentref a lleoliadau 'ymgynnull' eraill wrth graidd y gymuned gan eu galluogi i adfer o effaith y pandemig. Gwnaeth y prosiect helpu i ailsefydlu gweithgareddau a ddarfu drwy chwilio am weithgareddau newydd ac arloesol trwy ddulliau ffisegol a/neu rwydweithiau digidol. Gwnaeth y prosiect gynyddu'r defnydd a'r ymgysylltu â'r gymuned i sicrhau cynaliadwyedd pob lleoliad yn y dyfodol. Darparwyd y prosiect yn Sir y Fflint a Wrecsam.

LEADER – AN OVERVIEW OF PROJECTS IN THE LAST 12 MONTHS....

The LEADER funded development work for the Bailey Hill project (based at an old Norman motte-and-bailey castle in Mold, Flintshire) has been able to draw down £1,138,700 from the National Lottery, and an additional £49,600 from the Landfill Tax and £10,000 from Mold Town Council's Lord Mayor's Fund. Cadwyn Clwyd worked with the Bailey Hill partnership on two LEADER projects to help develop and bring the project to fruition. These included LEADER support for professional fees for an options appraisal and plans for the development of the site, and also support for a pilot project to run events and activities at the site to train volunteers and engage the wider community. Capital works have now been completed on the new access and Bailey Hill Visitor Centre.

The Our Picturesque Landscape project is an exciting project that centres on the landscape of the Dee Valley and the Pontcysyllte Aqueduct and Canal World Heritage Site. It takes as its theme the inspirational journeys that have been – and continue to be – a feature of the area which is cut by the Llangollen Canal, Thomas Telford's A5 and the River Dee. The project, which started its journey through LEADER has received £1,382,400 funding through the National Lottery Heritage Fund and is investing in the natural and built heritage and improving access and public engagement. LEADER funding supported an initial feasibility study for the Our Picturesque Landscape project, and Cadwyn Clwyd has since supported other items to support the project, such as interpretation plans, woodland management plans and traditional skills training.

Llangollen 2020 has been able to draw down significant capital funding from the UK Levelling Up for the development of a public realm scheme in the centre of the town.This would not have been possible without LEADER funding for the Llangollen 2020 Shared Spaces Feasibility Study. The work developed options using innovative unconventional public realm design approaches, and assessed their viability and economic impact.

A heartfelt thank you for all of your efforts, not only on behalf of Llangollen 2020, but also the Four Great Highways Project. The scoping monies from Cadwyn Clwyd have resulted in a total of £1.8m for Llangollen 2020 and very probably a similar amount for the Four Great Highways Project. What a result! An unqualified success story, thanks to you and the Board making the investments into our ideas… we will as a group be forever thankful to you and Cadwyn for your support.

LLANGOLLEN 2020 GROUP



South Denbighshire Community Partnership (SDCP) has received LEADER support for a range of initiatives including the Cludiant Ni (Our Transport) feasibility study, community transport volunteer training programme, Meals on Wheels feasibility study, Edeyrnion Community Electric Car Club, Energy Local, and a feasibility and consultation on extending their services. They went on to be successful in applying for £499,754.00, over 4 years, from the National Lottery for a project to deliver their services over a larger area of south Denbighshire.

The Rural Flintshire Micro-Care Pilot Project received LEADER support to enable Flintshire County Council to run a pilot project exploring new solutions to providing care in isolated rural areas. It also ran a support scheme looking to encourage people to move into the care provider sector. The project recently received funding from the Welsh Government Foundational Economy scheme to further develop and enhance the provision.

The North East Wales Food Forum brought food producers from the rural areas into a North East Wales Food & Drink Forum. In addition to networking, sharing best practice, discussing challenges to the sector and working up project ideas, the group held training sessions, mentoring events, familiarisation trips and workshops for producers.

The North East Wales Tourism Ambassador Scheme originally started by Cadwyn Clwyd and partners with LEADER support. The scheme was formed to strengthen links between stakeholders working within the tourism industry. Businesses from Denbighshire, Flintshire and Wrexham are offered the opportunity to attend learning journeys, events, and training workshops and were encouraged to source local produce, submit data to measure tourism economic impacts and promote the wider area.

The LEADER funded Social Enterprise network project by Wrexham County Borough Council, provides hands on support to develop and sustain social enterprise. The project funded places to new /pre-start social entrepreneurs on the Empowered Entrepreneur programme.

The Cefn Mawr Development Coordinator Project has been set up to work with the town council and local community to build its capacity and build confidence to deliver physical and environmental projects that enhance the community in the future. During the year the coordinator has helped the town council leaver in £98,146.50 and work is ongoing and set to bring in more projects and funding to the area.

The 3Rs: RESET, RESUME, REBOUND Project provided support and resources to Community Centres, Village Halls and other 'gathering' venues at the heart of the community enabling them to rebound from the impact of pandemic. The project helped re-establish activities that had ceased by seeking new and innovative activities through physical and/or digital network channels. The project increased the usage and community engagement to ensure each venue's future sustainability. The project was delivered in both Flintshire and Wrexham.

GRANTIAU BUSNES ADNEWYDDU MENTER

Lansiwyd y cynllun grantiau busnes Adnewyddu Menter yn ystod y flwyddyn. Mae'r cynllun Adnewyddu Menter yn cefnogi mentrau bach a micro yn uniongyrchol yn ardaloedd gwledig Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam i adfer ar ôl pandemig Covid-19 trwy ddarparu mentora a grantiau 50%, hyd at uchafswm o £5,000, tuag at gostau'n gysylltiedig â chyflwyno cynhyrchion neu brosesau newydd.

Cafodd y cynllun grantiau ei lansio ym mis Ionawr 2022, a chefnogwyd 11 busnes micro yn ystod y cyfnod, yn amrywio o fragdy micro i asiantau teithio, cynhyrchwyr bwyd, arbenigwr iechyd, cwmni digwyddiadau a chwmni peirianneg.

£44,672

Mewn cymorth grantiau i fusnesau micro

11

Cymorth ariannol i busnes micro

ENTERPRISE RENEWAL

The Enterprise Renewal business grant scheme was launched during the year. The Enterprise Renewal scheme is directly supporting micro and small enterprises in the rural areas of Denbighshire, Flintshire and Wrexham recover from the Covid-19 pandemic by providing mentoring and 50% grants, up to a maximum of £5,000, towards costs relating to the introduction of new products or processes.

The grant was launched in January 2022, and during the period 11 micro businesses were supported, ranging from a micro-brewery, travel agents, food manufacturers, health specialist, events company to an engineering company.

£44,672

In grant support for micro businesses

11

Micro businesses financially supported

AD Welding	DEN
Chilly Cow	DEN
Natural Wholefoods Ltd	FLI
Back To Health Ltd	FLI
One Venue	FLI
Gatewen Training	WRE
My Tree 4 Health	WRE
UCML	WRE
ASG Entertainment	WRE
Delmar World	WRE
Big Hand Brewing	WRE

CYMUNEDAU GWYRDD

Mae prosiect Cymunedau Gwyrdd Cadwyn Clwyd yn cefnogi prosiectau llawr gwlad sy'n anelu at ddod â phobl a chymunedau at ei gilydd er budd lles y gymuned a bywyd gwyllt. Bydd hefyd yn hyrwyddo adferiad economaidd mewn ardaloedd gwledig yn dilyn Covid-19. Mae Cymunedau Gwyrdd yn cefnogi buddsoddi mewn prosiectau gwerth oddeutu £30,000 ac yn cefnogi isafswm o 30 prosiect cymunedol ar draws ardaloedd gwledig Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam yn cymryd rhan yn y prosiect.

Cymeradwywyd y prosiect ym mis Medi 2021 ac erbyn mis Mawrth 2022 mae'r cwmni yn:

13 prosiect cymunedol

cefnogi 13 prosiect, gyda chyfanswm gwerth y prosiect yn £345,000

£345,000 o gefnogaeth ariannol

- Cyflwynodd Garddwyr Cymuned Holt gais i uwchraddio EcoHub ac adnewyddu rhandiroedd.
- Mae Cyngor Cymuned Llanfair DC a Grŵp Cae Chwarae'r Hen Ysgol yn datblygu'r cae chwarae fel ased hamdden a chwarae awyr agored i'w fwynhau gan y gymuned leol gyfan.
- Mae Agrication yn gwmni budd cymunedol, wedi'i leoli ym Mangor is y Coed, sy'n datblygu eu cynllun 'Tyfu gyda'n Gilydd' at ddefnydd addysgol a hamdden gan bob oedran a gallu yn yr ardal.

- Mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru yn ymwneud â gwella ansawdd amgylcheddol Ystad Ddiwyddiannol Wrecsam trwy ddarparu mannau gwyrdd i bobl eu mwynhau ac i fywyd gwyllt elwa ohonynt.
- Yn safle Castell y Waun mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn bwriadu creu 'Dol Gofalgar' i'r gymuned ei defnyddio fel ardal ymgilio mewn bywyd gwyllt ar gyfer myfyrio tawel.
- Mae Resource yn gwmni budd cymunedol yn ardal Dinbych sy'n awyddus i ddatblygu safle coedwig amaethyddol a pherllan, ac mae cynllun arfaethedig tebyg ar gyfer llwybr, pwll a gwylfan yn cael ei gynnig gan Outside Lives yn Loggerheads.
- Cymeradwywyd nifer o gynlluniau gan Gynghorau Tref a Chymuned i ddatblygu cynlluniau yn eu hardaloedd. Mae'r rhain yn cynnwys gwelliannau bioamrywiaeth yn Rhuddlan, gwelliannau i grîn y pentref yn Nercwys, plannu gwyrchoedd a pherllannau yn Nannerch, gwelliannau tebyg i'r cae chwarae yng Ngherrigydrudion a safle amwynder poblogaidd ym Metws y Coed.

GREEN COMMUNITIES

Cadwyn Clwyd's Green Communities project supports grass-roots projects that aim to bring people and nature together for the benefit of wildlife and community wellbeing. It will also promote economic recovery in rural areas post Covid-19. Green Communities supports investment in project value around £30,000 and supports a minimum of 30 community projects across the rural areas of Conwy, Denbighshire, Flintshire, and Wrexham areas taking part in the project.

The project was approved in September 2021 and by March 2022 the company is:

13 community projects

Supporting 13 projects with a total project cost of £345,000

£345,000 in funding support

- **Holt Community Gardeners applied for an EcoHub upgrade and allotment refurbishment.**
- **Llanfair DC Community Council and the Old School Playing Field Group are developing the playing field as an outdoor play and recreational asset to be enjoyed by the whole of the local community.**
- **Agrication is a community interest company, based in Bangor on Dee, developing their 'Grow Together' scheme for educational and recreational use by members of all ages and ability in the locality.**

- **The North Wales Wildlife Trust is involved in improving the environmental quality of Wrexham Industrial Estate by providing greenspaces for people to enjoy and wildlife to benefit from.**
- **At the Chirk Castle site, the National Trust is proposing a 'Mindful Meadow' for the community to access a green retreat-like area for quiet contemplation.**
- **Resource is a community interest company in the Denbigh area who are proposing to develop an Orchard and AgriForest site for community use, and a similar scheme for a wildlife boardwalk, pond and viewing platform is proposed by Outside Lives based at Loggerheads.**
- **A number of Town and Community Council schemes developing plans in their localities have been approved. These include biodiversity improvements at Rhuddlan, Nercwys village green improvements, planting hedges and orchards at Nannerch, similar improvements to the playing field at Cerrigydrudion, and a popular amenity site in Betws y Coed.**

MYNEDIAD DIGIDOL GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU

NEW (NORTH EAST WALES) DIGITAL ACCESS

Mae'r prosiect Mynediad Digidiol Gogledd Ddwyrain Cymru gwerth £198,000 yn cefnogi dau Swyddog Cysylltedd Digidol sy'n gweithio ar draws ardaloedd gwledig tair ardal awdurdod lleol Gogledd Ddwyrain Cymru. Mae'r swyddogion yn gweithio â chymunedau i ddatrys problemau cysylltedd fel cysylltiad rhyngrwyd araf iawn, a chynorthwyo'r rhai heb fand eang i gael eu cysylltu. Dechreuodd y prosiect yn wreiddiol fel cynllun peilot dan LEADER ac yn dilyn llwyddiant y peilot cafodd ei brif ffrydio dan Gynllun Datblygu Cadwyn Gyflenwi a Chydweithio LEADER.

£198,000

The £198,000 NEW Digital Access project supports two Digital Connectivity Officers, working across the rural areas of the three North East Wales Local Authority areas. The officers work with communities to troubleshoot connectivity issues, such as very low speeds, and assist those with no broadband at all to get connected. The project originally started as a pilot under LEADER, following the success the project was mainstreamed under the RDP's Cooperation and Supply Chain Development Scheme.

CYNLLUNIAU CRONFA FFYNIANT Y DEYRNAS UNEDIG

UK LEVELLING UP SCHEMES

CRONFA ADFYWIO CYMUNEDOL Y DEYRNAS UNEDIG – ARLOESI CYMUNEDOL SIR DDINBYCH

UK COMMUNITY RENEWAL FUND - COMMUNITY INNOVATION DENBIGHSHIRE

Mae prosiect Arloesi Cymunedol Sir Ddinbych yn cael ei ddarparu gan bartneriaeth rhwng Cadwyn Clwyd a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych. Mae wedi cefnogi datblygu economaidd dan arweiniad y gymuned a galluogi cymunedau daearyddol a sectoraidd yn Sir Ddinbych i feithrin a gwireddu arloesi ac agwedd entrepreneuraidd ar lefel leol a lefel micro. Themâu blaenoriaeth y prosiect yw buddsoddi mewn sgiliau, buddsoddi ar gyfer busnesau lleol a buddsoddi mewn cymunedau a lleoedd. Mae elfen Cadwyn Clwyd y prosiect yn cefnogi Prosiectau Cymunedol a Grantiau Busnes.

The Community Innovation Denbighshire project is being delivered by a partnership of Cadwyn Clwyd and Denbighshire Voluntary Services Council (DVSC). It has supported community-led local economic development, and enabled geographical and sectoral communities in Denbighshire to realise and foster innovation and an entrepreneurial attitude at the local and micro level. The project priority themes are investment in skills, investment for local businesses, and investment in communities and place. Cadwyn Clwyd's element of the project supported Community Projects and Business Grants.

PROSIECTAU CYMUNEDOL

Cyllido a chyflawni prosiectau i alluogi 16 Grŵp Cymunedol i gynnal astudiaethau dichonoldeb a phrosiectau peilot. Yn ystod camau cynnar y prosiect rhoddwyd cymorth ymarferol i alluogi cymunedau i adnabod a datblygu syniadau yn geisiadau prosiect. Arweiniodd hyn at gymeradwyo 16 prosiect yn cynnwys 12 astudiaeth ddichonoldeb/cynlluniau datblygu a phedwar prosiect peilot.

COMMUNITY PROJECTS

Funding and project delivery to enable 16 Community groups to undertake feasibility studies and pilot projects. During the early stages of the project, hands on support was provided to enable communities to identify and develop ideas into project applications. These have led to 16 approved project consisting of 12 feasibility studies/development plans and 4 pilot projects.

Mae'r prosiectau peilot yn cynnwys gwasanaeth cynghori i adeiladau cymunedol a fydd yn darparu archwiliadau effeithlonrwydd ynni, cymorth gwasanaethau proffesiynol i helpu prosiectau cyfalaf cymunedol i fynd o'r cam dichonoldeb i'r cam adeiladu a menter dwristiaeth i ddatblygu dehongli newydd sy'n cynnwys dyddio adeiladau hanesyddol gan ddefnyddio dendrocronoleg.

Mae'r astudiaethau busnes yn cynnwys cynlluniau ehangu cyfleusterau Clwb Rygbi Rhyl a'r Cylch, opsiynau i'r sector bwyd a diod uchafu ar y statws Parc Cenedlaethol newydd, ailddatblygu Parc Glan yr Afon yn Llangollen, llwybr i ddefnyddwyr lluosog rhwng Trefor a Llangollen, datblygu'r Ganolfan Sgiliau Coedwig ym Modfari a chanolfan greadigol newydd yn y Rhyl. Bydd deilliannau'r prosiectau hyn yn hysbysu ac yn bwydo i mewn i ddefnyddio'r Gronfa Ffyniant Gyffredin arfaethedig ar lefel gymunedol yn Sir Ddinbych.

The pilot projects include an advisory service for community buildings that will provide them with energy efficiency audits, professional services support to help community capital projects go from feasibility stage to build stage, and a tourism initiative looking to develop new interpretation that includes dendrochronological dating of historic buildings.

The feasibility studies include expansion plans for Rhyl and District Rugby Football Club's facilities, options for the food a drink sector to maximise on the new National Park status, redeveloping Riverside Park in Llangollen, a multi-user path between Trevor and Llangollen, development at the Woodland Skills Centre in Bodfari, and a new creative hub in Rhyl. The outcomes of these projects will inform and feed into future delivery of the proposed Shared Prosperity Fund at the community level in Denbighshire.

GRANTIAU BUSNES

Dechreuodd y gwaith o sefydlu'r grantiau busnes yn gynnar yn 2022. Hefyd comisiynodd Cadwyn Clwyd gwmni Barsby Associates i gefnogi busnesau trwy'r broses ymgeisio am grantiau. Darparwyd cyngor ychwanegol gan Busnes Cymru. Mae'r cynllun Grantiau Busnes wedi bod yn llwyddiant ysgubol yn dilyn cyhoeddusrwydd eang, a thrafodwyd dros 50 o ddarpar ymgeiswyr gan y cynllun.

BUSINESS GRANTS

Work started on establishing the business grants in early 2022. Cadwyn Clwyd also commissioned Barsby Associates to support businesses through the grant process, additional advice was also provided through Business Wales. The Business Grants Scheme has been an immense success having been widely publicised, and the scheme has been discussed with over 50 prospective applicants.

Mae'r gwaith cychwynnol a ddechreuodd yn gynnar yn 2022 wedi arwain at ddyfarnu grantiau i 28 busnes – mwy na tharged y cynllun o 25.

Initial work stared during early 2022 has led to 28 businesses have been awarded grants – more than the target of 25 for the scheme.

CRONFA FFYNIANT BRO

LEVELLING UP

Daeth y gwaith a ddechreuwyd gan Gadwyn Clwyd dan LEADER i adnewyddu a datblygu adeilad banc HSBC yn flaenorol yng Nghorwen i benllanw drwy sicrhau £139,000 o Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ymdrin ag agweddau allanol yr adeilad. Bydd y gwaith yn dechrau yn 2022/23.

Mae Cadwyn Clwyd, trwy gyfrwng cronfeydd LEADER a chymorth ymarferol gan staff, wedi rhoi cefnoageth cychwynnol a wnaeth wedyn alluogi cymunedau i wneud cais am gyllid gan y Gronfa Ffyniant Bro. Derbyniodd cymuned Gwyddelwern gymorth staff Cadwyn i gynnal astudiaeth ddichonoldeb, wnaeth eu galluogi i fynd ymlaen i wneud cais am gyllid gan Gronfa Ffyniant Bro Dyffryn Clwyd.

Gwnaeth gwaith a wnaed gan Cadwyn ac a gyllidwyd trwy LEADER alluogi grŵp Llangollen 2020 i wneud cais llwyddiannus i Gronfa Ffyniant Bro De Clwyd ar gyfer gwaith cyfalaf.
Mae LEADER hefyd wedi ariannu'r grwpiau cymunedol a ganlyn sydd hefyd wedi targedu Cronfeydd Ffyniant Bro:

- Adolygiad busnes Rheilffordd Llangollen
- Gwaith datblygu a dehongli Pontcysyllte
- Gwaith dehongli Loggerheads
- Prosiect ymgynghoreiaeth a phrosiect peilot Nantclwyd y Dre

Work which started by Cadwyn Clwyd under LEADER to refurbish and develop the former HSBC bank at Corwen, culminated in securing £139,000 of UK Levelling Up funds to renovate the external aspects of the building. Work is set to start in 2022/23.

Cadwyn Clwyd through LEADER funds and staff hands on support and delivery, has provided initial support which then enabled communities to apply for funding from the levelling up scheme. Gwyddelwern Community received Cadwyn Clwyd staff support to undertake a feasibility study, this enabled them to progress to apply for the Vale of Clwyd Levelling Up Scheme.

Work undertaken by Cadwyn Clwyd and funded through LEADER enabled the Llangollen 2020 group to successfully apply for the Clwyd South Levelling Up funding for capital works.

LEADER has also funded the following community groups which have also targeted Levelling Up Funds:

- **Llangollen Railway business review**
- **Pontcysyllte interpretation and development work**
- **Interpretation work for Loggerheads**
- **Nantclwyd y Dre consultancy and pilot projects**

CRONFA BUDD CYMUNEDOL BRENIG WIND LTD

BRENIG WIND LTD COMMUNITY BENEFIT FUND

Mae Cronfa Budd Cymunedol Brenig yn ei thrydedd flwyddyn yn awr. Ers lansio Cronfa Budd Cymunedol Brenig Wind Ltd mae'r gronfa wedi cynorthwyo prosiectau'n uniongyrchol ar draws ei hardal fudd. Mae'n gyfle gwych i gymunedau gwledig elwa. Mae Cadwyn Clwyd eisoes wedi dyfarnu mwy na £392,450 mewn grantiau ac wedi cefnogi 65 cymuned yn ystod y chwe rownd o gyllid i grwpiau cymunedol ar gyfer ystod o brosiectau gwahanol a'u helpu i ddenu hyd yn oed mwy o gyllid.

Cynhaliodd Cadwyn Clwyd ddau gylch cyllido yn ystod y flwyddyn:

The Brenig Community Benefit fund is now in its third year. Since its launch the Brenig Wind Ltd Community Benefit Fund has directly helped projects across its area of benefit. It's a fantastic opportunity for rural communities to benefit. Cadwyn Clwyd has already awarded well over £392,450 in grants and supported 65 community in six rounds of funding to community groups for a range of different projects and helped them leverage even more.

During the year, Cadwyn Clwyd ran two funding rounds:

£113,906

o Gronfa Brenig wedi'i gyflwyno er mwyn cefnogi prosiectau a grwpiau cymunedol

Brenig Fund awarded to support projects and community groups

14

o Grwpiau Cymunedol wedi'u cefnogi

Community Groups / Projects supported

£334,000

additional funds levered

Additional funds levered

PERSONÉL: BWRDD CYFARWYDDWYR A STAFF CADWYN CLWYD

PERSONNEL: CADWYN CLWYD BOARD OF DIRECTORS AND STAFF

Dyma Aelodau Bwrdd Cyfarwyddwyr Cadwyn Clwyd yn ystod y cyfnod dan sylw:

Members of the Cadwyn Clwyd Board of Directors for the period were:

Mr Andrew Jedwell	Cadeirydd, Cyfarwyddwr / Chairman, Director
Mr Gareth Evans	Ysgrifennydd y Cwmni, Cyfarwyddwr / Company Secretary, Director
Dr Norman Jones	Cyfarwyddwr / Director
Mr David W T Darlington	Cyfarwyddwr / Director
Mr Jeff Morgan	Cyfarwyddwr / Director (retired July 2021)
Cllr Tony Thomas (DCC)	Cyfarwyddwr / Director (appointed July 2021)
Cllr Hugh Jones (WCBC)	Cyfarwyddwr / Director
Cllr Carolyn Brindle (DCC)	Cynghorwr / Advisor (retired March 2021)
Mr Gari Thomas (DCC)	Cynghorwr / Advisor (appointed July 2021)
Ms Janine Beggan (WCBC)	Cynghorwr / Advisor

Dymuna Cadwyn Clwyd ddiolch i'r holl gyllidwyr, partneriaid prosiect a sefydliadau partner sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i gyflawni ein rhaglenni a'n prosiectau ni.

Cadwyn Clwyd wishes to thank all funders, project partners and partner organisations which make a positive contribution towards delivery of our programmes and projects.

Staff Cadwyn Clwyd

Dyma staff cyflogedig Cadwyn Clwyd yn ystod y cyfnod dan sylw:

Cadwyn Clwyd Staff

The following members of staff have been employed by Cadwyn Clwyd during the period:

Lowri Owain	Rheolwr y Cwmni / Company Manager
Adam Bishop	Cydlynydd Rhaglen / Programme Coordinator
Delyth Edwards	Swyddog Cyllid a Rheolaeth Ariannol / Finance & Controls Officer
Catrin Ames	Swyddog Cyllid a Rheolaeth Ariannol / Finance & Controls Officer
Sarah Jones	Swyddog Adnoddau Naturiol / Natural Resources Officer
Donna Hughes	Swyddog Partneriaethau Busnes / Business Partnerships Officer
Helen Williams	Swyddog Gwasanaethau Gwledig Swyddog Mentrau / Rural Services Officer Community Enterprise Officer
Lowri Edwards	Swyddog Cymorth Prosiectau / Project Support Officer
Carwyn Jones	Swyddog Cymorth Prosiectau / Project Support Officer
Haf Roberts	Rheolwr Prosiect Cymunedau / Green Communities Project Manager
Cara Roberts	Swyddog Cymorth Prosiectau Cymunedau Gwyrdd / Green Communities Project Support Officer
Denise Crampton	Swyddog Cymorth Arloesi Cymunedol Sir Ddinbych / Community Innovation Denbighshire Support Officer

CYFRIFON CADWYN CLWYD
CADWYN CLWYD ACCOUNTS

Cafodd cyfrifon Cadwyn Clwyd ar gyfer y cyfnod dan sylw eu paratoi gan Jones and Graham, Dinbych. Mae copi o gyfrifon y Cwmni ar gyfer y cyfnod Ebrill y 1af 2021 – Mawrth yr 31ain 2022 yn dilyn yr adroddiad hwn.

Cadwyn Clwyd's finances for the period were prepared by Jones and Graham, Denbigh. A copy of the Company's accounts for the period 1st April 2021 - 31st March 2022 follow this report.

MANYLION CYSWLLT / CONTACT DETAILS

Cadwyn Clwyd. Llys Owain, Stryd y Bont, Corwen, LL21 0AH

T: 01490 340500 E: admin@cadwynclwyd.co.uk

www.cadwynclwyd.co.uk @cadwynclwyd @CadwynClwyd